# Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Eurig Evans

Yr Eidal

Ffermio Gofal

Hydref 2018

## Cefndir

Ar hyn o bryd, rydw i'n magu heffrod llaeth ar gontract ac yn godro'n achlysurol ar fferm gyfagos. Roedd menter arallgyfeirio a sefydlwyd yn 2010 yn golygu ailgylchu gwastraff llechi er mwyn cynhyrchu cynnyrch llechi addurniadol. Mae fy menter ddiweddaraf wedi datblygu o ganlyniad i rôl rhan amser arall yn cefnogi datblygiad unigolion gydag awtistiaeth ac anawsterau dysgu drwy ddefnyddio ystod eang o weithgareddau'n ymwneud â byd natur. Trwy fod yn aelod o grŵp Agrisgôp Cyswllt Ffermio yn 2018, dechreuais fynd drwy'r broses o gofrestru fel Fferm Ofal. Rwy'n gobeithio y bydd Fferm Ofal Gwaun Care Farm yn weithredol yr haf yma. Mae gen i gytundeb ar hyn o bryd i groesawu un person ifanc ar y fferm un diwrnod yr wythnos.

Rydw i'n bwriadu tyfu'r Fferm Ofal a'i weithgareddau, gan gynnig ystod ehangach o gyfleoedd dysgu ar gyfer unigolion, ac rydym ni eisoes wedi buddsoddi mewn defaid godro. Rydw i hefyd yn bwriadu datblygu gweithgareddau coetir a gweithdai gwaith coed gwyrdd, gan ymgorffori hyn yn y gweithgareddau natur er mwyn cynnig amgylchedd dysgu holistaidd. Mae galw sylweddol ar gyfer ffermydd gofal yng Nghymru yn ôl nifer o fyrddau iechyd lleol a chynghorau sir. Credaf y gallai hyn roi cyfle i rai busnesau fferm ymateb a bodloni'r gofynion yma.

Yn ystod fy nhaith gyfnewid, byddaf yn ymweld â fferm ofal San Patrignano yn yr Eidal, arweinwyr yn y sector, sy'n cynnig dulliau arbenigol er mwyn adfer, sydd wedi'u teilwra at anghenion unigolion, gan alluogi unigolion i adfer a newid er mwyn adennill eu hyder o fewn y gymuned.

## Fy Nhaith Gyfnewid

Mae San Patrignano yn fwy na fferm yn unig; mae'n gymuned sydd wedi ymrwymo i adferiad: o'r rhai sy'n dioddef o ystod eang o ddibyniaeth i'r rhai sy'n anabl. Roeddwn i wedi dewis ymweld â'r fferm hon yn Rimini, yr Eidal, ar ôl derbyn lle ar raglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio. Roedd hyn yn golygu fy mod yn gallu ymweld ag unrhyw le yn Ewrop i ehangu ar fy ngwybodaeth ac i ddysgu pethau gwerthfawr er mwyn hyrwyddo ein busnesau newydd neu bresennol.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yn ystod fy ymweliad, roedd San Patrignano yn dathlu ei ben-blwydd yn 40, gan olygu 40 mlynedd o helpu pobl gyda dibyniaeth ac anableddau. Roedd nifer o'r unigolion dan ofal y fferm yn dioddef dibyniaeth ar gyffuriau. Roedden nhw'n mynd i'r afael â'r broblem benodol hon drwy ddechrau dilyn rhaglen bedair blynedd o hyd. Drwy gydol eu cyfnod adfer, nid oedd ganddynt hawl i gael cyswllt corfforol o gwbl gyda'u teuluoedd na ffonau symudol, nac ychwaith i gael perthynas ar y fferm. Ar ôl cyrraedd carreg filltir benodol ar y rhaglen, roeddent yn cael gwneud un alwad ffôn bob wythnos.
Cafodd llymder y rhaglen adfer hon ei hamlygu i mi pan glywais nad oeddent yn cael coffi, te na bisgedi; nid oeddent hyd yn oed yn cael mynd i'r gampfa fwy na phedair gwaith yr wythnos gan eu bod yn agored i ddibyniaeth. Nid oedd y gymuned ar gyfer pobl gyda dibyniaeth ar gyffuriau yn unig; roedd y gymuned hefyd yn cynnal rhaglenni i gefnogi pobl gyda dibyniaeth amrywiol gan gynnwys gamblo, rhyw, alcohol ac anhwylderau bwyta.

Fodd bynnag, mae'r gyfradd llwyddiant yn syfrdanol o uchel, sef 73%, ac i nifer o'r rhai sy'n cymryd rhan, dyma eu cyfle olaf i wella, gan y byddant yn dychwelyd i'r carchar ar unwaith os byddant yn methu â chwblhau'r cynllun. Er eu bod yn llym iawn, roedd yr awyrgylch yn gymharol hamddenol ac yn deuluol tu hwnt.

Mae San Patrignano yn hunangynhaliol; maen nhw'n cynhyrchu eu llaeth a'u caws clodfawr eu hunain, a byddant yn cadw gwlân oddi ar eu defaid a'u geifr i gynhyrchu dilladau o ansawdd uchel megis siwmperi, sanau a dillad cyffredinol, sydd wedi ennill gwobrau. Roedden nhw'n cadw crwyn eu gwartheg bîff er mwyn creu cynnyrch lledr o ansawdd uchel, megis esgidiau, cotiau, strapiau oriawr ar gyfer Rolex a nwyddau lledr eraill ar ran Gucci. Roedd ganddynt gyn-fodelau ar y rhaglen a oedd yn gaeth i gyffuriau narcotig er mwyn eu cadw'u hunain yn denau. Roedd y cyfranogwyr wedi gwneud dillad ar gyfer Wythnos Ffasiwn Llundain drwy ddefnyddio sgil-gynnyrch ar gyfer y fferm. Er enghraifft, roedd ganddyn nhw gwningod yr oeddent yn eu cadw ar gyfer y ffwr, er mwyn gallu cynhyrchu'r teganau yma, gwerth £1200, fel y byddai dylunwyr megis Gucci yn gallu eu hychwanegu at eu bagiau llaw.

Yn ystod eu cyfnod ar y rhaglen, roedden nhw'n creu bagiau llaw, esgidiau a gorchudd gwely - roedden nhw'n gwneud popeth posibl allan o wlân. Mae'n ffordd wych o hyfforddi'r unigolion ac i'w paratoi ar gyfer camu o'r rhaglenni i'r byd mawr tu hwn i gyfyngder y fferm. Y meddylfryd sy'n sylfaen i hyn yw y byddant yn defnyddio rhywbeth cadarnhaol ac adeiladol i gymryd lle eu dibyniaeth er mwyn canolbwyntio'r meddwl. Erbyn iddyn nhw adael, bydd ganddynt sgiliau gwerthfawr mewn meysydd sy'n amrywio o waith coed sylfaenol, gwaith metel, sgiliau TG a hyd yn oed sgiliau dylunio papur wal.

Roedd nifer o gyfranogwyr yn methu â darllen nac ysgrifennu, a gyda chymorth yr ysgol o fewn y gymuned, roedden nhw'n gallu dychwelyd i fyd addysg i ddysgu'r sgiliau gwerthfawr hyn. Roedd hi'n wych gweld oedolion canol oed yn dychwelyd i'r dosbarth i ddysgu ac i wella eu hunain.

Roedd ysbyty 24 awr a deintydd ar y safle, lle'r oedden nhw hefyd yn dysgu deintyddiaeth sylfaenol, gan y byddai'r cyfranogwyr gyda dibyniaeth ar gyffuriau wedi gwerthu unrhyw beth er mwyn talu am gyffuriau.

Yn ystod fy nghyfnod yn San Patrignano, fe gwrddais â pherson oedd wedi colli popeth oherwydd iddo fynd yn gaeth i gyffuriau - roedd hynny'n agoriad llygad gwirioneddol. Fel y soniais ar ddechrau'r adroddiad, mae San Patrignano yn fwy na fferm yn unig; mae ganddynt winllannau, canolfan geffylau mawr ac mae ganddynt eu tîm pêl-droed eu hunain, sy'n cystadlu'n lleol, gyda goruchwyliaeth. Mae iechyd a ffitrwydd yn bwysig iawn yn San Patrignano; maen nhw'n credu'n gryf yn yr ethos 'corff iach, meddwl iach'.

Er mwyn dangos rhai o gyflawniadau syfrdanol staff San Patrignano: ugain mlynedd yn ôl, roedd 75% o'r gymuned wedi'u heintio â HIV a hepatitis, a phan aethom ni yno yn 2018, dim ond ugain unigolyn oedd yn dioddef o'r clefyd. Roedden nhw wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol a ffynonellau eraill i ganfod triniaeth ar gyfer hepatitis, a oedd yn costio £25,000 y pen. O ganlyniad i'w gwaith caled yn cysylltu gydag awdurdodau a ffynonellau allanol o'r Eidal, fe wnaethon nhw lwyddo i leihau'r gost yma £20,000.

Roeddwn i'n ei ystyried yn fraint i fwyta cinio gyda nhw; roedd 1,312 o bobl o fewn y gymuned wedi'u cofrestru ar wahanol raglenni, yn ogystal â 28 o ymwelwyr ar y diwrnod hwnnw. Dim ond yr hyn maen nhw'n ei gynhyrchu ar y fferm maen nhw'n ei fwyta yn San Patrignano, nid oes unrhyw beth artiffisial yn eu bwyd, ac mae'n rhaid i mi ddweud mai dyna'r risotto orau i mi ei flasu erioed! Roedd y ceginau'n wych ac yn rhedeg yn ddidrafferth; roedd pawb yn gwybod beth oedd eu gwaith er mwyn sicrhau bod y gegin yn gweithio'n effeithiol. Dyma enghraifft arall o sut mae San Patrignano yn annog cyfranogwyr i ganolbwyntio eu meddyliau ar sgiliau er mwyn gwella o'u dibyniaeth, drwy ddarparu'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ffynnu. Roeddwn i wedi fy synnu o'r ochr orau gyda faint o barch oedd pawb yn ei roi i'w gilydd; roedd pob un yn gwybod eu bod yno am reswm ac nad oedd ail gyfle yn San Patrignano, felly pe byddai unrhyw un yn torri'r rheolau, yr opsiwn arall fyddai dychwelyd i'r carchar. Byddai'r cyfranogwyr hefyd yn cwblhau prawf cyffuriau ar hap er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn y rheolau.

Y rheswm yr oeddwn i eisiau ymweld â'r fferm hon oedd gan fy mod yn gwybod eu bod wedi adfer 26,000 o bobl dros 40 mlynedd, sy'n syfrdanol. Fe wnaeth ffrind i mi sy'n rhedeg cymdeithas San Patrignano yn Llundain hefyd argymell y fferm hon i mi. Maen nhw'n derbyn cefnogaeth ariannol sylweddol gan gwmnïau enfawr megis Pirelli Tyres, Rolex a BMW i enwi rhai.

Dechreuodd y fferm fechan hon gyda 200 o ieir, naw person yn cymryd rhan, dau aelod staff a sied sinc. Roedd pob un o'r naw cyfranogwr wedi dianc yn ystod y noson gyntaf, ond fe wnaethon nhw lwyddo i'w harwain yn ôl i'r fferm am ail gyfle. Roedd un o'r rhai cyntaf iddyn nhw ei helpu yn gaeth i alcohol, ac mae'r person hwnnw dal

yno 40 mlynedd yn ddiweddarach, yn helpu pobl eraill drechu dibyniaeth. Mae hynny'n dweud y cyfan, ond fe wnaeth fy ysbrydoli hefyd i roi cyfle i fy myfyrwyr i sy'n dioddef awtistiaeth a Syndrom Asperger ddysgu sgiliau newydd, goresgyn problemau a gwella'u hunain. Rydw i'n frwdfrydig iawn dros roi ail gyfle iddyn nhw, fel y mae San Patrignano wedi'i wneud i gymaint o bobl. Mae gwefan San Patrignano hefyd yn cynnwys ystod eang o wybodaeth bwysig a defnyddiol; o eglurhad manwl o'u dulliau trin i ddiweddariadau blog sy'n rhoi cipolwg o fywyd yn y gymuned. Mae nifer o brosiectau ymylol hefyd yn cael eu cynnal, megis "Where the Future Takes Root", sef prosiect moesegol o adeni a chynaliadwyedd, a "We Free", sef eu prosiect atal.

Un peth wnes i ei ddysgu yn dilyn fy ymweliad â San Patrignano oedd bod unrhyw beth yn bosibl. Os allwch chi wyrdroi bywyd rhywun sy'n byw gyda dibyniaeth ar heroin, gallwch chi wneud unrhyw beth. Mae eu cyfradd llwyddiant yn 73% ar hyn o bryd, ac ni fyddai wedi bod yn bosib sicrhau ffigwr mor uchel heb dîm penodol i gefnogi ac annog y cyfranogwyr hyn; mae'n amhosibl gwneud popeth ar eich pen eich hun.